






Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Y Gell Cyngor Technegol

Crynodeb o Gyngor

12 Mehefin 2020



Y Gell Cyngor Technegol : Crynodeb

12 Mehefin 2020

Crynodeb o'r Prif Bwyntiau

- Mae TAG yn amcangyfrif y bu gostyngiad wythblyg i ddecplyg yn nifer yr achosion a nifer yr achosion newydd o'r feirws yng Nghymru ers i'r don gyntaf hon yn y pandemig gyrraedd penllanw.
- Wrth i nifer yr achosion newydd ddisgyn i lefelau isel, mae Wrth i nifer yr achosion newydd ddisgyn i lefelau isel, mae R_t yn mynd yn sensitif iawn i newidiadau dyddiol mewn achosion a ganfyddir trwy brofi ac olrhain, gan beri i R_t wamalu'n wythnosol a thueddu tuag at $R_t = 1$.
- Os bydd nifer yr achosion o heintiau yn parhau i ostwng, daw mesurau eraill megis nifer yr achosion newydd ac adroddiadau Ymarferwyr Cyffredinol yn bwysicach na defnyddio R_t fel y prif ddangosydd.
- Dylai pobl sydd â rhwydweithiau cymdeithasol gwahanol geisio osgoi cyfarfod (yn enwedig cyswllt agos, hir, dan do) neu rannu'r un lleoedd.
- Mae'r dystiolaeth yn awgrymu
 - bod unigolion yn heintus yn y cyfnod presymptomatig
 - bod unigolion sy'n datblygu symptomau yn fwyaf heintus ychydig cyn i'r symptomau ddechrau.


Rhif atgynhyrchu

- Yr amcangyfrif diweddaraf o'r Rhif atgynhyrchu R_t ar gyfer Cymru o SPI-M yw rhwng 0.7 a 1.0 gydag amcangyfrif canolog o 0.9.
- Mae'r amcangyfrif hwn a'r amcangyfrif a gyhoeddwyd yng nghrynodeb TAC ar 03/06/20 yn seiliedig ar wahanol setiau o fodelau, felly ni ellir cymharu'r ddau yn uniongyrchol.
- Mae R_t wedi bod yn is na 1 ers o leiaf pum wythnos sydd wedi arwain at ostyngiad yn nifer yr achosion a'r rhai sydd wedi gorfod cael eu derbyn i'r ysbyty. Os bydd R_t yn aros yn is na 1 yna bydd achosion yn parhau i ddisgyn.
- Nid oes tystiolaeth bod R_t yn wahanol iawn yng ngwahanol wledydd y DU. Fodd bynnag, mae mwy o ansicrwydd yn yr amcangyfrifon ar gyfer yr Alban, Cymru a Gogledd Iwerddon yn rhannol oherwydd y niferoedd llai o achosion a marwolaethau o'i gymharu â Lloegr.


Amcangyfrif presennol o R_t

- Ni fydd unrhyw newidiadau o ran trosglwyddo a allai fod wedi digwydd yn y ddwy i dair wythnos ddiwethaf yn cael eu hadlewyrchu mewn data clinigol eto, nac ychwaith felly yn yr amcangyfrifon cyfredol o R_t .
- Rydym yn defnyddio R_t i amcangyfrif y gyfradd atgynhyrchu yn y gymuned. Mae lleoliadau eraill sy'n arbennig o berthnasol i'r sefyllfa bresennol sydd, yn ein barn ni, yn epidemigau ar wahân, megis ysbytai a chartrefi gofal. Nid yw'r rhain yn annibynnol; gall haint gael ei ledaenu haint rhwng ysbytai a chartrefi gofal, o'r lleoliadau hyn yn ôl i'r gymuned, ac i'r gwrthwyneb. Ni ellir casglu'r tueddiadau neu'r trosglwyddiadau hyn drwy amcangyfrif R_t ar wahân ar gyfer cartrefi gofal ac ysbytai.
- Argymhellir bod y sefyllfa mewn lleoliadau llai yn cael ei monitro gan ddefnyddio nifer yr achosion a marwolaethau, a lle bo modd, ymchwiliad epidemiolegol i sut y mae'r lleoliadau lluosog yn rhyngweithio.
- Mae'r amcangyfrifon diweddaraf o'r gwahanol fodelau yr ydym yn eu defnyddio ar gyfer R_t yng Nghymru i'w gweld yn y ffigurau isod. Mae'r canlyniadau'n cael eu gwneud yn ddienw er mwyn osgoi rhoi blaenoriaeth i un model penodol. Dangosir canlyniadau gan ddefnyddio'r model cyfunol gan ddefnyddio pwysoliad cyfartal hefyd mewn du ynghyd â chyfyngau hyder o 90%.

Ffigur 1: amcangyfrifon cyfredol o R_t yng Nghymru – gyda chyfyngau hyder o 90%, ynghyd â'r model cyfunol yn seiliedig ar bwysoliadau cyfartal




- Ffigur 2. Yn dangos y rhif atgynhyrchu yng Nghymru dros amser gyda chyfyngau hyder. Mae'r llinell ddotiog lorweddol yn dangos gwerth targed 1 ar gyfer y rhif atgynhyrchu effeithiol y mae ei angen ar gyfer rheolaeth. Mae'r llinell doriad fertigol yn nodi dyddiad cynhyrchu'r adroddiad.



Ffigur 2: Rhifau atgynhyrchu dros amser yng Nghymru


Glynu at y mesurau presennol

- Mae llawer o bobl yng Nghymru yn parhau i ddilyn y canllawiau ar gadw pellter cymdeithasol, ond mae'r cydymffurfiad yn parhau i ostwng yn raddol. Mae data ar lefel Prydain Fawr (oddi wrth ONS) yn dangos cynnydd yn nifer y rhai sy'n gadael eu cartref am resymau 'nad ydynt yn hanfodol'.
- Yn yr adolygiad diwethaf, amcangyfrifwyd bod cydymffurfiad yn rhyw 70%, ac mae'r data diweddaraf yn awgrymu y gallai fod wedi gostwng i rywle rhwng 60%-65%. Mae ymchwili ddiweddar yn dangos bod mwy o bobl yn dweud eu bod wedi torri'r rheolau, er gwaethaf cydymffurfiad cyffredinol parhaus, drwy gael ffrindiau neu deulu i ymweld â hwy gartref. Mae ymchwili arall yn dangos bod y cydymffurfiad yn is ar gyfer grwpiau oedran iau (18-29) ac mae cydymffurfiad llwyr yn is ar gyfer aelwydydd incwm uwch.
- Mae Ffigur 3 yn dangos data a gasglwyd ar-lein fel rhan o arolwg o lawer o wledydd ar lwyfan Global Advisor. Mae pob un o'r tonnau wedi cynnwys tua 600 o ymatebwyr yng Nghymru. Mae'r sampl yn fras yn cynrychioli'r boblogaeth oedolion 16-74 oed. Mae'r data'n cael ei bwysoli i adlewyrchu proffil oedran a rhyw poblogaeth Cymru 16-74 oed. Mae gan bob sampl ffin cyfeiliornad. Ar gyfer sampl o tua 500, mae hyn yn +/- 4.8 pwynt canran.
- I gael rhagor o wybodaeth am farn y cyhoedd ar COVID-19, ewch i: <https://llyw.cymru/surveypublic-views-coronavirus-covid-19>.



Ffigur 3: Cydymffurfio â chanllawiau pellter cymdeithasol

- Ers canol mis Ebrill mae teithio wedi bod yn cynyddu'n raddol, ond nid yw'r wythnos diwethaf wedi gweld unrhyw gynnydd/gostyngiad bach ar yr wythnos flaenorol. Yng nghanol mis Ebrill roedd teithio gan ddefnyddwyr Facebook yng Nghymru 50% yn is na'r llinell sylfaen. Roedd hyn wedi codi i 29% erbyn 2 Mehefin ac mae wedi aros tua 30% ers hynny. Yn yr un modd mae data Apple yn dangos bod ceisiadau am gyfarwyddiadau gyrru yng Nghymru wedi gostwng ychydig yn ystod yr wythnos diwethaf yn dilyn cyfnod o gynnydd ers canol mis Ebrill. Mae'r data symudedd Google hefyd yn dangos sefydlogrwydd dros yr wythnos diwethaf yn y rhan fwyaf o gateoriau.
- Ar ôl y cyfnod o gyfyngiadau symud roedd patrymau teithio yng Nghymru a Lloegr fod yn weddol debyg. Er hynny, rhwng canol mis Mai a dechrau Mehefin, gwelwyd mwy o deithio yn Lloegr. Er bod y patrwm yng Nghymru wedi bod yn weddol wastad yn ystod yr wythnos diwethaf, gwelwyd gostyngiad bach mewn teithio yn Lloegr.
- Mae'r ffigur isod yn dangos y newid yn y teithio yng Nghymru. Mae'r ffigurau'n seiliedig ar gyfartaledd yr awdurdodau lleol sydd â data. Y llinell sylfaen yw'r gwerth canolrifol, ar gyfer y diwrnod cyfatebol o'r wythnos, yn ystod y cyfnod 5 wythnos Ionawr 3–Chwefror 6, 2020. Mae'r patrwm hwn yn debyg yn bennaf i'r patrwm ar gyfer y DU gyfan.



Ffigur 4: Newid mewn symudedd i'r llinell sylfaen ledled Cymru

Dynameg Heintusrwydd SARS-CoV-2

Mae adroddiad gan grŵp SAGE NERVTAG wedi rhoi'r canfyddiadau canlynol:

- Mae'r amcangyfrif o gyfnod magu'r feirws yn dal yn ddigyfnewid ar ganolrif o bum niwrnod, gyda salwch y mwyafrif helaeth o gleifion (>95%) yn dechrau o fewn 14 diwrnod ar ôl dod i gysylltiad â'r feirws.
- Mae feirws hyfyw wedi cael ei gymryd o gleifion presymptomatig, gan gefnogi'r ddamcaniaeth bod cleifion yn heintus yn y cyfnod presymptomatig.
- Mae ymchwiliadau'n cadarnhau bod gan unigolion y llwyth feirysol mwyaf ychydig cyn dechrau'r symptomau, neu ar yr un pryd â hynny ac yna ostyngiad graddol.
- Mewn rhai unigolion, gellir canfod y feirws 43 diwrnod ar ôl i'r symptomau ddechrau. Er hynny, yn y mwyafrif o achosion (ond nid pob un), mae pobl heintiedig yn bwrw'r feirws o dipyn i beth 14 diwrnod ar ôl i'r symptomau ddechrau, gan awgrymu nad ydynt bellach yn heintus.
- Mewn cleifion sydd yn yr ysbyty, mae tystiolaeth o heintusrwydd tan ddiwrnod 20, er mai tebygolrwydd bach yn unig sydd o hyn.
- Gall unigolion sydd â symptomau ysgafn yn unig fod yn heintus am gyfnod byrrach. Mewn unigolion sydd wedi cael symptomau ysgafn ac sy'n gwella, mae tebygolrwydd isel o heintusrwydd 7-9 diwrnod ar ôl i salwch ddechrau (hyder canolog).

Niweidiau Economaidd

- Mae Prif Economegydd Llywodraeth Cymru wedi rhoi briff i'r Grŵp Cyngor Technegol sy'n dechrau amlinellu'r niweidiau economaidd hirdymor sy'n deillio o COVID-19.
- Mae'r dystiolaeth o niwed economaidd-gymdeithasol hirdymor posibl sy'n gysylltiedig â dirwasgiad o ganlyniad i bandemig COVID-19 yn awgrymu bod sawl peth achosol sy'n peri i'r argyfwng effeithio ar yr economi, gan gynnwys:
 - tarfu ar gadwyni cyflenwi (gan gynnwys rhai sy'n ymwneud â chyflenwyr tramor);
 - salwch ac absenoldeb gweithwyr;
 - y mesurau sydd ar waith i leihau trosglwyddo'r feirws;
 - y newidiadau mewn ymddygiad defnyddwyr a busnesau mewn ymateb i'r risg o haint a'r disgwyliadau y bydd gwendid economaidd yn y dyfodol
- Bydd yn anodd, yn amhosibl yn ôl pob tebyg, i wahaniaethu rhwng yr effeithiau a achoswyd gan y mesurau a roddwyd ar waith i reoli'r feirws, a ffactorau eraill, yn enwedig newidiadau "gwirfoddol" yn ymddygiad unigolion a busnesau. Efallai y bydd rhai o'r newidiadau eraill hyn yn parhau pan fydd y mesurau wedi'u llacio neu eu dileu, gan ymestyn unrhyw darfu economaidd. Efallai y bydd newidiadau parhaol hefyd y bydd rhaid i'r economi addasu iddynt.
- Mae niwed economaidd-gymdeithasol hirdymor yn deillio o "effeithiau creithio" a achoswyd gan argyfyngau economaidd fel dirwasgiadau. Mae effeithiau creithio o'r fath yn cynrychioli niwed i unigolion a busnesau sy'n arwain at effeithiau niweidiol parhaus ar ganlyniadau economaidd-gymdeithasol.
- Yn y sector busnes, mae effeithiau creithio yn cynnwys lleihad mewn buddsoddiad, sy'n achosi lleihad yn y cyfradd twf cynhyrchiant a thâl yn y tymor hirach, a cholli busnesau a oedd fel arall yn hyfyw, sy'n arwain at gostau sefydlu gwastraffus yn gymdeithasol ar gyfer y rhai a ddaw yn eu lle.
- Ond nid yw effeithiau negyddol o'r fath ar y sector busnes yn dueddol o barhau yn y tymor hir iawn – mae'r sector busnes yn gwella dros gyfnod nad yw fel arfer yn hirach na tua phum mlynedd (er y gall fod yn hirach pan mae buddsoddiad mewn busnes wedi'i effeithio'n ddifrifol).
- Yn yr argyfwng presennol, mae addysg mewn ysgolion wedi'i effeithio'n ddifrifol. Disgwylir y bydd hyn yn cael effaith hirdymor ar ganlyniadau economaidd-gymdeithasol plant, gydag effeithiau mwy niweidiol yn debygol ar gyfer plant agored i niwed, sydd leiaf tebygol o fod wedi cael mynediad at gyfleoedd addysgol eraill.
- Felly mae asesu a dod i gyfaddawd rhwng y niweidiau economaidd-gymdeithasol hirdymor a'r effeithiau mwy uniongyrchol yn anrffod yn fater o farn wleidyddol i'w benderfynu yng nghyd-destun tystiolaeth anghyflawn ac ansicr.

Papur Grŵp Amgylcheddol SAGE ar wella ymwybyddiaeth o'r broblem o gysylltedd cymdeithasol uchel

- Mae tystiolaeth yn dod i'r amlwg bod rhai swyddi a sefyllfaoedd yn arwain at risg uwch o haint oherwydd y lefelau uchel o gysylltedd cymdeithasol. Mae'r risg uwch hwn yn gysylltiedig â mwy o farwolaethau mewn rhai swyddi a sectorau o'r boblogaeth, gan gynnwys pobl ar incwm is a chymunedau BAME.
- Gall pobl sydd mewn swyddi sy'n dod i gysylltiad agos ag amryw o bobl am gyfnod hirach fod mewn mwy o berygl o ddal a lledaenu COVID-19. Gall enghreifftiau o swyddi risg uwch gynnwys: gyrwyr bysiau a thacsis, gweithwyr gofal cymdeithasol a gofal iechyd a phobl sy'n gweithio mewn rhai lleoliadau manwerthu, arlwy, diogelwch a gweithgynhyrchu.
- Mae sefyllfaoedd eraill sy'n cynnwys dod i gyswllt cymdeithasol agos am gyfnod hirach hefyd yn arwain at risg uwch o lledaenu COVID-19. Mae enghreifftiau'n cynnwys: defnyddio trafndiaeth cyhoeddus; cynulladau teuluol mawr; digwyddiadau crefyddol a diwylliannol; tafarndai, bwytai a chaffis.
- Wrth i lefelau risg leihau yn y boblogaeth yn gyffredinol, mae'n hanfodol bod y cyhoedd, cyflogwyr, gweithwyr a phobl hunangyflogedig yn ymwybodol o'r sefyllfaoedd sy'n parhau i fod yn rhai risg uchel a pha gamau y mae'n rhaid i bawb eu cymryd i leihau'r risg o drosglwyddo'r haint.
- Dylai pobl sy'n dod i gyswllt â llawer iawn o bobl osgoi dod i gysylltiad agos, am gyfnod hir, gydag unrhyw un o dan do os yw hynny'n bosibl (yn y gwaith, wrth deithio, ac mewn cyd-destun cymdeithasol y tu allan i'r gwaith)
- Osgoi cwrdd ag eraill a rhannu gwagleoedd yw'r ffordd fwyaf effeithiol o leihau risg. Os na ellir osgoi cwrdd a rhannu gwagleoedd, dylai pobl yn y swyddi hyn a phawb sy'n dod i gysylltiad â nhw fod yn arbennig o ofalus eu bod yn diogelu ei gilydd drwy leihau'r risg o ddal a lledaenu'r haint.
- Mae'n hanfodol bod cyfrifoldeb yn cael ei rannu rhwng y bobl mewn perygl, eu gweithwyr a'r holl bobl y maent yn cwrdd â nhw. Gall y camau ychwanegol gynnwys golchi dwylo ar adegau priodol, osgoi cyffwrdd eich wyneb neu arwynebau, glanhau pob arwyneb a rennir, newid/golchi dillad, defnyddio a thaflu hancesi papur, awyru mannau a rennir, cadw pellter cymdeithasol, a gwisgo gorchudd wyneb wrth ddod yn agos at eraill os nad yw'n bosibl cadw pellter cymdeithasol.

Ymchwil



- Mae 2,494 o gleifion o Gymru wedi'u recriwtio i astudiaethau iechyd y cyhoedd brys COVID-19 ar hyn o bryd, sy'n gynydd o 174 yn y saith diwrnod diwethaf.
- Mae Banc Data SAIL yng Nghymru yn arwain y ffordd gyda nifer o brosiectau ymchwil data cysylltiol sy'n cefnogi'r ymateb i COVID-19 ac yn weithredol yn y DU, gan dynnu sylw at fanteision buddsoddiad Llywodraeth Cymru mewn seilwaith ymchwil iechyd a gofal cymdeithasol.
- Mae'r data diweddaraf o waith ymchwil ar y cyd sy'n seiliedig ar yr ap astudiaeth KCL ZOE (yn seiliedig ar tua 70,000 o ddefnyddwyr yng Nghymru) yn ddefnyddiol iawn o ran dangos inni sut y gall pandemig COVID-19 effeithio ar gymunedau yng Nghymru.


Dangosfwrdd Data'r GIG

- Data lechyd Cyhoeddus Cymru wedi'u diweddarau ar 10/06/2020
- Data ysbytai wedi'u diweddarau ar 10/06/2020

Unedau Gofal Dwys L3

- Defnydd gwelyau cyffredinol yn 41.8%
- O'r cyfanswm o 140 o gleifion mewn Unedau Gofal Dwys L3 yng Nghymru:
 - Mae 17% wedi'u cadarnhau fel cleifion COVID (i lawr o 20% yn yr adroddiad blaenorol);
 - Mae 4% yn gleifion COVID a amheuir (i lawr o 11%); ac mae
 - 77% yn gleifion nad ydynt yn gleifion COVID (i fyny o 68%).
- O'r byrddau iechyd gydag Unedau Gofal Dwys L3:
 - Mae llai na 55% o welyau Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro a Bwrdd Iechyd Prifysgol Hywel Dda yn cael eu defnyddio;
 - Mae llai na 50% o welyau Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Bwrdd Iechyd Prifysgol Bae Abertawe yn cael eu defnyddio;
 - Mae llai na 25% o welyau Bwrdd Iechyd Prifysgol Aneurin Bevan yn cael eu defnyddio.





Ffon fesur tebygolrwydd Tîm Asesu'r Pennaeth Gwybodaeth (PHIA)

- Os yw'n briodol, bydd y Gell Cyngor Technegol yn mynegi tebygolrwydd neu hyder yn y cyngor a roddwyd gan ddefnyddio ffon fesur tebygolrwydd PHIA i sicrhau cysondeb yn y gwahanol gyngor a roddir.

